**Alun Ffred Jones AC/AM**
**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**
**Minister for Heritage**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref SF/AJ/0015/10

Yr Athrawes Laura McAllister
Cadeirydd
Cyngor Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd
CF11 9SW

1 Mawrth 2010

Annwyl Laura,

**LLYTHYR CYLCH GWAITH CYNGOR CHWARAEON CYMRU 2010-11**

Diben y llythyr hwn yw disgrifio prif flaenoriaethau strategol a gweithredol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer 2010-11. Byddant yn cyfrannu at amcanion polisi strategol Llywodraeth y Cynulliad Cymru ar y campau a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Nod Llywodraeth y Cynulliad yw creu dyfodol iach trwy gael pobl i gymryd rhan yn rheolaidd yn y campau ac mewn gweithgarwch corfforol, a hefyd hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd trwy lwyddiannau ein chwaraewyr a'n timau cenedlaethol. Mae'r Cyngor Chwaraeon yn chwarae rôl allweddol yn yr ymgyrch i wireddu'r amcanion hyn.

Heb os nac oni bai, rydym yn wynebu cyfnod anodd oherwydd yr hinsawdd economaidd a'r pwysau cynyddol ar arian cyhoeddus. Er hynny gellir dadlau ei bod hyd yn oed yn bwysicach heddiw i gynnal a chynyddu lefelau cymryd rhan yn y campau a gweithgarwch corfforol ac i hybu ymdeimlad o falchder a pherthyn ymhlith pobl Cymru trwy lwyddiant ar lwyfan chwaraeon y byd.

Rydym yn gwybod o'r ymchwil a'r dystiolaeth fod cymryd rhan mewn campau a gweithgarwch corfforol yn gwella iechyd a lles pobl ac yn cyfrannu at agweddau eraill ar fywyd, gan gynnwys ennyn diddordeb pobl ifanc mewn addysg ac yn eu cymunedau. Mae'r Cyngor Chwaraeon mewn safle dda i ddylanwadu ar gyfranogaeth a perfformiad.

**ARIAN CYMORTH GRANT**

Er gwaethaf pwysedd ar draws cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n dda gennyf ddweud y gallaf gadarnhau a rhoi cymorth grant gwerth £27.547M i Gyngor Chwaraeon ar gyfer 2010-11. Ar hyn o bryd, dyraniad dros dro yw'r elfen cyfalaf, ac mae'n dibynnu ar ystyriaeth o'r pwysau ariannol ar draws gyllideb cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad. Byddaf yn cadarnhau'r swm y cytunir arno cyn gynted â phosibl. Mae Atodiad A o'r llythyr hwn yn disgrifio cyllideb cymorth grant y Cyngor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel 029 2089 8465
Ffacs • Fax 029 2089 8015
correspondence.alun.ffred.jones@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn y flwyddyn i ddod, rwy'n awyddus i'r Cyngor ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a chanlyniadau strategol a gweithredol canlynol.

## Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi ffyniant diwylliannol a ffyniant ym myd y campau yng Nghymru fel nod strategol cyffredinol y flaenoriaeth yn Cymru'n Un sydd am sicrhau bod gennym Ddiwylliant Cyfoethog ac Amrywiol. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi nodi mai sicrhau poblogaeth iach sydd ag ansawdd bywyd da yw nod strategol cyffredinol Dyfodol Iach, sef un o brif flaenoriaethau Cymru'n Un. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn cyfrannu at y nodau hyn trwy ei waith ym maes y campau a gweithgarwch corfforol.

Hwyluso a rhoi cefnogaeth, yn ariannol neu fel arall, i weithgareddau sy'n cynyddu lefelau cymryd rhan a pherfformiad plant, pobl ifanc ac oedolion yn y campau ac mewn gweithgarwch corfforol, dyma fydd cyfrifoldebau cyffredinol y Cyngor Chwaraeon yn 2010-11. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, dylai'r Cyngor gael ei arwain gan:

- Gytundeb Cymru'n Un;
- Y Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol: "Creu Cymru Egnïol";
- Yr Adolygiad o Berfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon.

Mae'r Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol, yr Adolygiad o Berfformiad a Rhagoriaeth, a Chytundebau Partneriaeth Awdurdodau Lleol i gyd yn rhoi cyfle i chi hyrwyddo dull gweithredu strategol, cydgysylltiedig a mwy effeithlon ymhlith yr awdurdodau lleol, y Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol sy'n ymdrin â'r campau, a phartneriaid eraill. Rwy'n awyddus i'r Cyngor ddatblygu hyn, gan gael y gorau o'r buddsoddiad cyhoeddus yn y campau a gweithgarwch corfforol.

## BLAENORIAETHAU GWEITHREDOL AR GYFER 2010-11

Disgwylir i Gyngor Chwaraeon Cymru wireddu'r blaenoriaethau gweithredol canlynol yn 2010-11.

### Y Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol : "Creu Cymru Egnïol"

Bydd angen i'r Cyngor Chwaraeon weithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad – trwy'r grŵp PAMAG a gweithio mewn partneriaeth â'i swyddogion – yn ogystal â chyda phartneriaid eraill i roi cynllun gweithredu "Creu Cymru Egnïol" ar waith. Bydd gan y Cyngor Chwaraeon gyfrifoldeb dros arwain a chyfrannu at gymryd camau penodol sy'n cael eu nodi ynddo.

Mae disgwyl y bydd prif ffrydiau gwaith gweithgarwch corfforol o fewn rhaglen gwaith PAMAG ar gyfer 2010-11 yn cynnwys: ymgyrch gyfathrebu Creu Cymru Egnïol – 'Newid am Oes'; gwaith yn ymwneud â chyfleusterau; trefniadau gwerthuso; cydweithredu ar weithgareddau yn yr awyr agored ac ar gyfraniad ysgolion a'r sector addysg; ynghyd â pharatoi a chytuno ar Cynlluniau Gweithgarwch Corfforol Lleol.

Rwy'n deall eich bod wrthi'n datblygu cynllun manwl ar gyfer y camau gweithredu penodol a arweinir gan y Cyngor Chwaraeon, i'w drafod â swyddogion. Rwy'n edrych ymlaen at weld y cynllun hwn maes o law.

### Cytundeb Cymru'n Un

Dylai'r Cyngor Chwaraeon barhau i wireddu ymrwymiadau Cymru'n Un mewn perthynas â'r campau a gweithgarwch corfforol, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill. O fewn ei llinell sylfaen, mae cyllideb cymorth grant y Cyngor Chwaraeon ar gyfer 2010-11 yn cynnwys yr arian a roddwyd gynt at y gwaith o wireddu ymrwymiadau Cymru'n Un. Rwy'n disgwyl cael adroddiadau rheolaidd ar yr ymdrechion i wireddu ymrwymiadau canlynol Cymru'n Un.

**Nofio am Ddim** - Y Cyngor Chwaraeon i roi cynllun diwygiedig Nofio am Ddim ar waith, fel y cytunwyd â Llywodraeth y Cynulliad, a hynny trwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

**5 awr o weithgarwch corfforol** - y Cyngor Chwaraeon i barhau i weithredu'r rhaglen 5x60, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gael mwy o ddisgyblion llai egnïol i gymryd rhan yn y cynllun, gan fynd i'r afael â'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddo, a sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol y tu allan iddo.

**Hyfforddi ar Lawr Gwlad**
Wedi i Lywodraeth y Cynulliad gytuno ar gynigion hyfforddi'r Cyngor Chwaraeon, bydd cynllun hyfforddi yn cael ei roi ar waith i hyrwyddo'r campau ar lawr gwlad.

**Ysgolion dydd Sadwrn a thros yr haf**
Trwy awdurdodau lleol neu partneriaid eraill, darparu ysgolion dydd Sadwrn a thros yr haf yn y campau; adrodd ar y gweithgareddau sy'n cael eu darparu, gan asesu'u heffaith ar gyfranogiad a chynaliadwyedd.

**Perfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon**
Rwy'n edrych ymlaen at gael y strategaeth ddrafft ar gyfer perfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon cyn bo hir. Mae hon yn cael ei thrafod â swyddogion ar hyn o bryd a bydd yn cynrychioli ymateb y Cyngor i adroddiad Ymgynghorwyr Wharton a gafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2009. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor Chwaraeon yn 2010-11 fydd rhoi'r strategaeth ddrafft ar waith.

**Etifeddiaeth Gemau Olympaidd 2012**
Bydd y Cyngor Chwaraeon yn bartner allweddol yn y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau etifeddiaeth i'r campau a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, yn sgil cynnal Gemau Olympaidd 2010. Bydd rhaglenni'r Cyngor Chwaraeon yn gwneud cyfraniad pwysig a pharhaol i'r etifeddiaeth honno. Rwy'n awyddus i'r Cyngor weithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i gyfrannu at gynnal rhaglenni/digwyddiadau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad fel rhan o etifeddiaeth ehangach y Gemau Olympaidd.

**Yr Her Adfywio Cymunedol**
Yng ngoleuni canlyniadau'r adroddiad gwerthuso a gomisiynwyd gan y Cyngor Chwaraeon a'r trafodaethau a fu rhwng swyddogion a'r Prif Weithredwr, cafodd £150,000 ei gynnwys yng nghyllideb y Cyngor Charaeon ar gyfer 2010-11. Hoffwn ofyn i'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd y rhaglen hon yn barhaus i sicrhau ei bod yn rhoi'r gwerth gorau i ni am ein harian trwy gael effaith gynaliadwy ar lefel cyfranogiad yn yr ardaloedd sydd wedi'u targedu.

**Rheoli Canolfannau Cenedlaethol (Athrofa Chwaraeon Cymru/Plas Menai)**
Yn ddiweddar, cafodd pwrpas a gwaith y canolfannau cenedlaethol eu hadolygu, ac yng nghyd-destun yr Adolygiad o Berfformiad a Rhagoriaeth, hoffwn weld cynllun datblygu ac achos busnes yn cael eu llunio ar gyfer y canolfannau cenedlaethol a fydd yn disgrifio cynigion y Cyngor Chwaraeon ar eu cyfer dros y tair blynedd nesaf. Dylid wneud hynny erbyn diwedd Medi 2010. Dylai'r cynllun nodi'n glir bwrpas y canolfannau a sut y dylid eu rheoli, yn weithredol ac yn ariannol.

Yn y cyfamser, bydd y Cyngor Chwaraeon yn monitro gwaith Athrofa Chwaraeon Cymru a Phlas Menai, yn enwedig eu costau a'u ffrydiau incwm. Dylid rhoi gwybod i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad am unrhyw wyro o'r cynlluniau datblygu a gyflwynwyd yn 2010, a hynny cyn gynted â phosibl.

**Arbedion Effeithlonrwydd**
Bydd yr angen am arbedion effeithlonrwydd yn parhau i fod yn fater o bwys am y dyfodol rhagwedadwy. Rwy'n rhagweld y bydd gofyn i chi ddatblygu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd i'w trafod â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y flwyddyn, er nad yw'n bosibl dweud eto beth fydd yr amserlen debygol.

**Marchnata a Chyfathrebu**
Dylai'r Cyngor Chwaraeon barhau i weithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad ar gynlluniau cyfathrebu ar y cyd sy'n cynnwys amcanion ar y cyd, gan sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y campau a gweithgarwch corfforol yng Nghymru yn cael eu hamlygu.

**Ymchwil a Gwerthuso**
Wrth ddatblygu'ch rhaglen ymchwil a gwerthuso, dylech weithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad er mwyn cael y gorau o'r ymchwil a'r data wrth ddatblygu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac er mwyn llywio penderfyniadau buddsoddi.

## TREFNIADAU MONITRO PERFFORMIAD

Rydych yn gyfarwydd â'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd y Cyngor Chwaraeon yn erbyn y llythyr cylch gwaith a'i gynllun gweithredol. Maen nhw'n cynnwys cyfarfodydd chwarterol â swyddogion, yn ogystal â'n cyfarfodydd bob chwe mis. Rwyf am i chi lunio adroddiad ar eich perfformiad yn 2009-10 cyn ein cyfarfod yn yr haf, ac adroddiad ar eich perfformiad dros gyfnod o chwe mis cyn ein cyfarfod yn yr hydref. Rwy'n gwybod bod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal rhwng eich staff a'm swyddogion ynghylch y KPIs sydd eu hangen ar gyfer y Fframwaith Strategol a'r Cerdyn Sgorio sy'n cael eu datblygu ar draws Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor barhau i weithio'n agos â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i gael hyd i fesurau canlyniad a pherfformiad a'u datblygu.

## GOFYNION TRAWSBYNCIOL

Bydd y gofynion trawsbynciol i'r holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad gydymffurfio â nhw yn parhau mewn grym yn 2010-11, fel yn y blynyddoedd cyn hynny. Bydd gwybodaeth fanwl am y rhain yn cael ei hanfon atoch ar wahân.

Yn gywir,

**Alun Ffred Jones AC/AM**
Y Gweinidog dros Dreftadaeth / Minister for Heritage

**Atodiad A**

**Costau Gweinyddu**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cynlluniau 20010-11 (£000)** |
|---|---|
| Costau Rhedeg | 1,508 |
| Dibrisiant/Cost y Cyfalaf * | 1,579 |
| **Cyfanswm y Costau Rhedeg** | **3,087** |

*Eitem nad yw'n arian parod yw hon, ac nid yw ar gael i'w thynnu i lawr yn ystod y flwyddyn.

**Cronfa Chwaraeon a Gweithgareddau Egnïol - Cymru**

| **Llinell Wariant y Gyllideb** | **Cynlluniau 2010-11 (£000)** |
|---|---|
| Grantiau Presennol* ** | 27,224 |
| Derbyniadau Presennol | -3,484 |
| Gwariant Cyfalaf | 775 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -55 |
| **Cyfanswm** | **24,460** |

*Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y £678k ychwanegol ar gyfer Hyfforddiant a'r £150k i fuddsoddi yn y cronfa Adfywio Cymunedol.

**Bydd £3.5m o gyllideb cymorth grant y Cyngor Chwaraeon yn parhau i gael ei fuddsoddi yn y fenter Nofio am Ddim i wireddu ymrwymiad Cymru'n Un i ddarparu nofio am ddim i blant, pobl ifanc a phobl hŷn. Bydd cynlluniau cyllideb weithredol y Cyngor Chwaraeon yn cynnwys buddsoddiad gwerth £1.5m mewn Cytundebau Partneriaeth Awdurdodau Lleol. Dylai'r arian ar gyfer Nofio am Ddim a Chytundebau Partneriaeth Awdurdodau Lleol gael ei ddefnyddio i wireddu'r ddau ofyn yn Cymru'n Un sy'n ymwneud â Nofio am Ddim.

*** Ar hyn o bryd, dyraniad dros dro yw'r elfen cyfalaf, ac mae'n dibynnu ar ystyriaeth o'r pwysau ariannol ar draws gyllideb cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad. Byddaf yn cadarnhau'r swm y cytunir arno cyn gynted â phosibl.

**CYFANSWM Y CYMORTH GRANT 2010-11**

| | **Cynlluniau 2010-11** |
|---|---|
| £,000 | **27,547** |

Cyfanswm y cymorth grant sy'n cael i nodi yn yr atodiad yw'r cyfanswm a'r uchafswm a roddir ac mae'n seiliedig ar adnoddau. Mae'r cymorth grant yn parhau i gael ei dalu ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol. Ni ddylai costau rhedeg Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer 2010/11 fod yn fwy na £1.508m.

Bydd cyllideb cymorth grant Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer 2011-12 a'r blynyddoedd wedyn yn cael ei hystyried ymhellach yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol os bydd newid yn sefyllfa gyllidebol Llywodraeth y Cynulliad.